Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gelynnen**

**Pencader**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

25/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Gelynnen

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | M&D Care Operations Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 4 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad cyntaf a gynhaliwyd o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Mae awyrgylch hamddenol yn helpu'r bobl a'r ymwelwyr i deimlo'n gyfforddus, ac mae tîm o staff proffesiynol yn parhau i ymdrechu i ddatblygu cymorth y bobl lle bynnag y bo'n bosibl. Mae sianeli cyfathrebu da yn amlwg, a chaiff y gofal y mae'r bobl yn ei gael bob diwrnod ei fonitro mewn modd cadarn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd â'r cartref a gellir dibynnu arno i ddarparu cefnogaeth sy'n dda ac yn ymarferol i'r rheolwr a'r tîm o staff.

Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr, ac maent yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau. Mae'r tîm o staff brwdfrydig a phroffesiynol am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl, ac mae'r bobl maent yn eu cefnogi yn ganolog i'r gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn sicrhau bod y bobl yn cael eu gwahodd i gyfrannu at eu prosesau adolygu, fel bod pob unigolyn yn cael defnyddio ei lais. Mae'r bobl yn wirioneddol yn cael eu hannog i wneud dewisiadau bob dydd o ran sut maent yn byw eu bywydau, ac i gymryd rhan mewn ystod eang o bethau sy'n bwysig iddynt.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth lawn dros eu dewisiadau ffordd o fyw ac maent mor annibynnol ag y dymunant fod. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn y cartref yn dda ac yn gweithio gyda phob person i sicrhau eu bod yn cael y cymorth a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt. Mae'r cofnodion gofal yn disgrifio trefniadau cymorth pob unigolyn yn glir: maent yn cynnwys dewisiadau personol, cefndir a hanes teuluol yr unigolyn, ac yn rhestru a nodi'r bobl sy'n bwysig i'r unigolyn. Yn ychwanegol, gan fod y bobl yn rhan weithredol o'u hadolygiadau gofal, maent yn ymwybodol o unrhyw newidiadau angenrheidiol pan fyddant yn digwydd. Yn ychwanegol, mae'r bobl bob amser yn gwybod beth sy'n digwydd gan fod y rheolwr yn trefnu i sicrhau bod cymaint o wybodaeth ar gael i'r bobl - mae llawer yn bresennol yn y cyfarfodydd tŷ ac mae modd i'r bobl godi unrhyw faterion yr hoffent eu trafod gyda'r tîm o staff. Hefyd, mae ganddynt fwydlenni darluniadol ynghyd â chynlluniau sydd wedi'u dylunio'n glir fel bod pob unigolyn yn gwybod beth sydd wedi'i drefnu ar gyfer pob diwrnod. Mae'r amseroedd bwyd yn hyblyg ac yn cael eu trefnu'n unigol yn unol â'u dewis. Mae'r gweithwyr gofal yn cefnogi bob person i gynllunio a siopa am eitemau - mae un person yn mynnu cael ysgrifennu ei restr siopa ei hun. Mae'r bobl yn gartrefol ac yn gyfforddus, ac yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt: maent yn gwneud pethau sy'n eu gwneud yn hapus. Mae gan y gweithwyr gofal gydberthnasau da â'r bobl ac maent yn rhyngweithio â nhw mewn ffyrdd cadarnhaol, yn cael sgyrsiau llawn hiwmor, ac yn eu hannog i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am sut i dreulio eu hamser. Mae pob unigolyn mor egnïol ag y mae'n dymuno bod. Mae'r bobl yn personoli eu hamgylchedd yn ôl eu diddordebau a'u hobïau.

Mae datganiad o ddiben y cartref yn disgrifio beth a ddarperir yn y gwasanaeth yn gywir. Mae gan bob person sy'n defnyddio'r gwasanaeth gopi o'r canllaw ysgrifenedig: mae'n rhoi manylion am yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan y cartref, yn ogystal â manylion am y broses gwyno pe bai angen iddynt ei defnyddio. Mae gan y bobl gysylltiadau cymorth teulu da a gallant gael gafael ar wasanaethau eirioli annibynnol pan fyddant am gael cymorth ychwanegol mewn perthynas â materion sy'n effeithio arnynt.

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth cymaint â phosibl. Dywed y bobl eu bod yn teimlo'n ddiogel a bod y tîm o staff yn amddiffyn eu preifatrwydd a'u gwybodaeth bersonol bob amser. Mae'r gweithwyr gofal wedi mynd drwy broses recriwtio lem y darparwr a chânt eu monitro'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y bobl. Mae pob gweithiwr gofal yn cael cefnogaeth ffurfiol, arweiniad, a hyfforddiant perthnasol ac yn gallu cael gafael ar bolisïau a gweithdrefnau er mwyn deall ei gyfrifoldeb i amddiffyn pobl agored i niwed. Mae polisi a gweithdrefn diogelu'r cartref yn unol â deddfwriaeth gyfredol a gweithdrefnau diogelu lleol.

Mae'r cartref yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg: mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagweithiol i bobl, heb fod angen iddynt ofyn am hynny. Mae sawl gweithiwr gofal yn siaradwyr Cymraeg ac mae'r arwyddion o

amgylch y cartref yn ddwyieithog. Ond, nid oes galw am gymorth drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf. Mae'r darparwr wedi cynhyrchu rhai dogfennau allweddol yn ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac yn bwriadu gwneud mwy.

## Gofal a Chymorth

Gall y tîm o staff gael gafael ar gofnodion gofal manwl. Mae'r rhain yn galluogi'r bobl i gael y cymorth gorau bob amser. Mae'r uwch-aelodau o staff yn cynnal asesiadau cychwynnol cyn i'r bobl symud i mewn i'r cartref ac maent yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth er mwyn sicrhau y gallant ddiwallu anghenion y bobl. Cymerir gwybodaeth o ffynonellau amrywiol, gan gynnwys lleoliadau blaenorol ac adroddiadau gweithwyr cymdeithasol. Mae'r adolygiadau gofal a'r asesiadau risg rheolaidd yn helpu i gynnal annibyniaeth y bobl gan eu cadw'n ddiogel o unrhyw risgiau ar yr un pryd. Mae'r gweithwyr allweddol yn adolygu holl gofnodion y person y maent yn ei ddisgrifio bob mis, neu'n amlach os bydd anghenion cymorth yn newid er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n gyfredol.

Mae'r bobl yn parhau i wneud pethau sy'n bwysig iddynt ac sydd wir yn eu gwneud yn hapus. Er bod gan bob person gynllun gweithgaredd wythnosol manwl ar waith, mae'r tîm o staff yn hyblyg iawn wrth fodloni cynlluniau'r bobl pe bai angen eu newid. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n bosibl y bydd pob diwrnod yn wahanol, ond dyma sydd orau gan y bobl yn y gwasanaeth. Mae'r bobl yn mwynhau cael barbeciw, mynd ar deithiau i ardaloedd lleol o ddiddordeb, yn ogystal â gweithgareddau hamdden fel nofio a bowlio. Mae eraill wedi ymweld â'u teuluoedd dramor, ymuno â grwpiau rhedeg (gyda gweithwyr gofal yn mynd i redeg ochr yn ochr â nhw hefyd), ac wedi mwynhau nosweithiau cwis mewn clybiau lleol, lle maent wedi gwneud ffrindiau â phobl y tu allan i'r gwasanaeth. Mae un person wrthi'n paentio ffens yr ardd, ac mae'n cael cymryd ei amser i wneud hyn yn hamddenol. Mae ymdeimlad yn y cartref ei fod bob amser yn wag am fod y bobl bob amser allan yn byw eu bywydau yn llawn. Cytunodd perthynas â ni, gan ddweud wrthym, *“It’s a really nice place, they’re always out and about doing things. Yes, very happy with them.”*

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd cartrefol. Mae'r safleoedd yn ddiogel, yn gynnes ac yn lân. Mae'r bobl yn trin y gwasanaeth fel eu cartref ac mae gwahanol ardaloedd ar gael iddynt gymdeithasu ynddynt, yn ogystal ag ardal yn yr awyr agored yn yr ardd. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli i adlewyrchu chwaeth a diddordebau'r person, gydag eitemau fel ornamentau, llenni a deunyddiau, lluniau a dodrefn.

Caiff y bobl eu diogelu rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad gan fod yn rhaid i bob ymwelydd ganu cloch y drws ffrynt er mwyn dod i mewn, yn ogystal â chofnodi ei ymweliad yn y llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Caiff cofnodion personol y bobl eu storio'n ddiogel a dim ond y gweithwyr gofal a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd ag awdurdod i'w gweld a gaiff weld y cofnodion hynny.

Mae gweithdrefnau clir ar waith ar gyfer rheoli heintiau. Nid oes unrhyw rwystrau wrth yr allanfeydd tân. Caiff yr holl ddeunyddiau COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd) eu storio'n gywir, yn unol â Rheoliadau COSHH 2002. Mae cyfarwyddiadau clir yn cael eu harddangos yn y cartref i nodi'r hyn y dylid ei wneud os bydd tân, ac mae'r rheolwr yn cwblhau archwiliadau rheolaidd o'r amgylchedd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ar y cyfan, mae gan y darparwr weledigaeth glir o'r cymorth y mae'n ei ddarparu, ac agwedd gadarnhaol tuag at bawb sy'n cael cymorth. Mae'r tîm rheoli yn defnyddio archwiliadau rheolaidd a manwl i fonitro pob agwedd ar ofal y bobl, a chaiff unrhyw faterion sy'n codi eu datrys yn brydlon. Cynhelir trafodaethau rheolaidd â'r bobl a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â'u bywydau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd â'r cartref, a gellir dibynnu arno i ddarparu cefnogaeth sy'n dda ac yn ymarferol i'r tîm o staff.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod digon o weithwyr gofal gwybodus a medrus ar gael i ddarparu'r cymorth cywir i'r bobl. Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio: Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, dogfennau adnabod â llun a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae rhaglen sefydlu'r staff yn gysylltiedig â chanlyniadau dysgu unigol a 'Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.' Mae'r gweithwyr gofal wedi cael yr hyfforddiant hanfodol diweddaraf. Mae cyfarfodydd staff bob deufis yn rhoi cyfle i'r tîm o staff drafod eu gwaith a chael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y gwasanaeth. Caiff pob agwedd o'r gwasanaeth eu crynhoi mewn adroddiad ansawdd bob chwe mis, sy'n nodi'r holl welliannau arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr yn trafod unrhyw faterion y maent am eu codi yn ystod cyfarfodydd goruchwylio a gynhelir bob tri mis, sy'n cael eu dogfennu.

Cyhyd ag y bo'n bosibl, mae'r darparwr yn cymryd camau priodol i ddiogelu'r bobl rhag esgeulustod a chamdriniaeth. Mae'r cofnodion gofal yn nodi unrhyw risgiau i lesiant y bobl yn glir, ac mae'r cynlluniau rheoli risg manwl yn helpu i gadw'r bobl mor iach, diogel ac annibynnol â phosibl. Mae'r gweithwyr gofal yn cydnabod eu cyfrifoldebau personol o ran cadw'r bobl yn ddiogel. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban ac yn hyderus i'w defnyddio pe bai angen. Byddent yn siarad â'r rheolwr neu'r Unigolyn Cyfrifol, ond byddent hefyd yn cysylltu ag asiantaethau allanol, fel y swyddfa ddiogelu leol, pe byddent o'r farn bod angen gwneud hynny.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
| --- | --- | --- |
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/07/2024